Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu

Meithrinfa Ddydd Glangwili

Ysbyty Cyffredinol Glangwili
Dolgwili Road
Caerfyrddin
SA31 2AF

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/11/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Meithrinfa Ddydd Glangwili

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Willow Daycare Limited
Lleoedd cofrestredig	42
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	8 Mawrth 2021
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Llesiant	**Digonol**
Gofal a Datblygiad	**Digonol**
Yr Amgylchedd	**Digonol**
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	**Digonol**

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac wedi setlo yn y feithrinfa ar y cyfan. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r rhai o'u cwmpas ac yn cael cyfleoedd digonol i chwarae ac archwilio eu hamgylchedd. Maent yn gwneud rhai dewisiadau mewn perthynas â sut maent yn treulio eu hamser. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae bron pob aelod o'r staff yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n hyderus ac yn briodol. Roedd bron pob un ohonynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant, ond nid oeddent yn dilyn holl bolisïau'r gwasanaeth yn gyson, er enghraifft arferion hylendid. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dangos esiampl dda. Mae'r staff yn cynnig rhai gweithgareddau diddorol ac yn ymgysylltu'n briodol â'r plant wrth ymgymryd â'r gweithgareddau chwarae a ddewisir ganddynt.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae'n ddiogel yn dilyn newidiadau a wnaed ar ôl ein hymweliad. Mae digon o le dan do ac yn yr awyr agored i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r adnoddau a ddarperir i'r plant iau yn briodol i'w hoedran ac o ansawdd da. Fodd bynnag, mae'r adnoddau i'r plant hŷn yn gyfyngedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn trefnu'r amgylchedd yn ddigonol er mwyn sicrhau y gall y plant fanteisio ar amrywiaeth o deganau, adnoddau a chyfarpar.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y feithrinfa yn datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi gwneud ymdrech i wella elfennau o'u hymarfer, ond nid ydynt yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Rydym hefyd wedi gwneud rhai argymhellion ar gyfer gwella ymhellach. Mae'r rhain wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn parhau i fonitro'r lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal gwelliannau ac yn cydymffurfio.

Llesiant	Digonol

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod y rhan fwyaf o'r staff yn ystyried eu dymuniadau, eu hanghenion a'u teimladau. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau o ran yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Er enghraifft, aeth y plant o bob ystod oedran ati i ddewis pa adnoddau neu ardaloedd roeddent am eu harchwilio. Caiff holl ddewisiadau'r plant eu parchu, mwy neu lai. Er enghraifft, dywedodd plentyn nad oedd am ymuno â phawb a neidio mewn pyllau y tu allan. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac wedi setlo ar y cyfan. Gwelsom rai o'r plant yn gwenu ac yn chwerthin wrth chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff a'r plant eraill. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant iau gydberthnasau cryf â'r staff ac maent yn dibynnu ar eu gweithiwr allweddol am lawer o gymorth a chysur. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymateb i'r plant mewn ffordd gynnes a sensitif, '*It's okay darling.*' Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ar y cyfan. Gwelsom blentyn ifanc yn cofleidio plentyn arall yn yr ardal i'r plant dan ddwy oed, a phlant hŷn yn rhannu powlen ac yn ei llenwi â dŵr y tu allan. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gyfarwydd ag arferion y feithrinfa. Maent yn chwarae ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Mae'r plant hŷn yn dechrau dysgu sut i fod yn sensitif i anghenion plant eraill. Clywsom blentyn hŷn yn ymddiheuro i blentyn arall pan ddisgynnodd wrth iddynt chwarae â chlustog. Mae'r plant iau yn cyd-chwarae'n fodlon â'i gilydd wrth iddynt ddefnyddio'r gegin chwarae a thrin a thrafod teganau synhwyraidd.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt ac maent yn datblygu sgiliau canolbwyntio. Maent yn cael budd o amrywiaeth sylfaenol o weithgareddau ac adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, defnyddiwyd hambwrdd chwarae â blawd i greu a ffurfio siapiau. Clywsom y plant yn enwi lliwiau amrywiol ac yn adnabod rhifau wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag aelod o'r staff. Gallai'r babanod a'r plant bach gael gafael ar amrywiaeth o deganau fel y mynnant. Yn ystod yr arolygiad, gallai'r plant hŷn ddefnyddio'r ardal awyr agored. Nid oedd ardal awyr agored y plant dan ddwy oed ar gael drwy gydol yr arolygiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth symud o gwmpas yr amgylchedd, gan wneud dewisiadau annibynnol am yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft, mae helpwr yn rhannu platiau a chyllyll a ffyrc amser cinio. Mae'r rhan fwyaf o'r plant o bob oedran yn cael eu cefnogi a'u hannog i fwydo eu hunain. Hefyd, gwelsom rai plant yn ceisio gwisgo eu hesgidiau glaw yn barod i chwarae yn yr awyr agored.

Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gweithio'n gymharol dda gyda'r staff er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu ymhellach yn dilyn ein hymweliad drwy sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu harddangos o gwmpas y feithrinfa. Mae bron pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon am y plant neu'r oedolion yn y feithrinfa.

Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a chofnodi damweiniau a digwyddiadau, yn ogystal ag unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Roedd bron pob un o'r cofnodion a welwyd, heblaw am un cofnod o ddigwyddiad, wedi cael eu cwblhau'n gyson a'u llofnodi gan y staff a'r rhieni. Mae gan ddigon o'r staff gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig ac mae citiau cymorth cyntaf ar gael.

Nid yw'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol bob amser, er enghraifft, nid yw'r staff yn golchi eu dwylo cyn helpu'r plant yn ystod amser bwyd, ar ôl newid cewyn neu ar ôl helpu'r plant i sychu eu trwynau. Nid yw'r staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta neu ar ôl bod i'r toiled. Mae'r staff yn rhoi cadachau gwlanen i'r plant sychu eu dwylo a'u hwynebau ar ôl bwyta. Yn dilyn yr ymweliad, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi trefnu bod weips gwlyb yn cael eu defnyddio i sychu dwylo'r plant cyn cael bwyd yn yr adran i blant dan ddwy oed. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod y bwyd yn iach a chaiff prydau a byrbrydau eu paratoi'n ffres yng nghegin y feithrinfa. Mae system ar waith i reoli alergeddau a dewisiadau deietegol. Nid yw'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu bwydo â photel yn briodol bob amser. Gwelsom blant ifanc yn cael poteli llaeth tra roeddent yn gorwedd mewn podiau cysgu yn ogystal â phlant yn cael eu bwydo mewn teclynnau bownsio. Mae'r staff yn sicrhau bod y byrddau yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl bwyd. Cafodd y lloriau eu glanhau ar unwaith ar ôl amser bwyd yn yr adran i blant dros ddwy oed; ond gwelsom rawnfwyd yn cael ei adael ar y llawr yn yr adran i blant dan ddwy oed, a oedd yn golygu y gallai'r plant gael gafael ar fwyd ar y llawr wrth iddynt chwarae yn yr ardal. Mae'r plant yn cysgu mewn podiau lefel isel yn yr ardal i blant dan ddwy oed, ond ni chaiff y cynfasau eu newid ar gyfer pob plentyn unigol. Rhoddwyd hyn ar waith ar unwaith yn dilyn ein hymweliad.

Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar ar y cyfan ac maent yn adnabod y plant yn dda. Mae bron pob aelod o'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes ac yn ymgysylltu â nhw yn y gweithgareddau a ddewisir ganddynt. Nid oes gwaith cynllunio ffurfiol ar waith ar gyfer gweithgareddau ac ni chaiff unrhyw asesiadau ffurfiol eu cofnodi. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymweliad arolygu, cadarnhaodd darparwr y gwasanaeth fod y staff bellach yn olrhain datblygiad y plant gan ddefnyddio rhestr wirio ddatblygiadol. Nid oedd y gweithgareddau a gynigiwyd yn ystod yr ymweliad arolygu yn cynnig cyfleoedd chwarae a datblygu ystyrlon a phwrpasol yn ein barn ni. Mae'r staff wedi trefnu'r amgylchedd ym mhob ystafell mewn ffordd sy'n cefnogi chwarae a ddechreuir gan y plentyn yn well. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw'r ardaloedd hyn yn briodol i oedran y plant neu nid ydynt yn targedu

diddordebau'r plant. Gan nad oes gwaith cynllunio ffurfiol ar waith, nid oes cyfleoedd ar gyfer chwarae annibynnol uwch na gweithgareddau awyr agored ochr yn ochr â gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Nid yw'r adnoddau yn cynnig her addas i'r plant hŷn sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r staff yn defnyddio ap ar-lein i gofnodi gweithgareddau dyddiol ar gyfer pob plentyn a chaiff y rhain eu rhannu â'r rhieni a'r gofalwyr.

Mae llawer o'r staff yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb neu ryngweithiad priodol. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymateb yn dda i gwestiynau, ceisiadau, a chiwiau dieiriau'r plant. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymddwyn mewn ffordd gynnes a charedig ac yn cynnig sicrwydd i'r plant pan fo angen. Fodd bynnag, gwelsom fod y rhyngweithio yn wael ar y cyfan yn yr adran i blant dan ddwy oed ar fore'r ymweliad arolygu cyntaf. Rhoddodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth newidiadau staffio ar waith ar unwaith. Caiff y plant eu cyfarch yn gynnes pan fyddant yn cyrraedd, ac mae pob aelod o'r staff yn siarad â'r plant mewn ffordd dyner a phwyllog. Ar y cyfan, nid yw'r staff yn annog y plant i ddweud '*please*' a '*thank you'.* Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith. Maent yn canmol ac yn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol ar lafar, gan ddweud pethau fel '*Well done*' a '*good job*.'

Mae'r staff yn gyfarwydd â'r plant sy'n eu gofal. Maent yn siarad yn hyderus am anghenion a dewisiadau'r plant unigol. Mae'r staff yn annog y plant i ddatblygu rhai o'u sgiliau annibyniaeth, gan gynnwys helpu'r plant ifanc iawn i wisgo eu gwisgoedd un darn a'u hesgidiau glaw er mwyn chwarae yn yr awyr agored.

Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Caiff y prif ddrysau eu cloi yn ddiogel, a chaiff ystafelloedd unigol y plant eu cau. Mae asesiadau risg ar waith. Caiff gwiriadau cynnal a chadw ac ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a sicrheir bod gan bob cerbyd yswiriant llawn ac yn addas i fynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu oddi yno. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthym fod y staff yn cwblhau rhestr wirio ddyddiol ar gyfer yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, gwnaethom fynegi pryderon mewn perthynas â'r ffens yn yr ardal i blant dan ddwy oed. Ymatebodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ar unwaith a sicrhau nad oedd neb yn cael mynd i'r ardal nes bod y ffens yn ddiogel. Nid oedd cofnod ysgrifenedig o wiriadau dyddiol na materion a nodwyd o'r gwiriadau dyddiol. Cafodd y ffens ei thrwsio a sicrhawyd ei bod yn ddiogel yn ystod y broses arolygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod stoc dda yn y citiau cymorth cyntaf a'u bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod digon o le chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn cynnig dwy ystafell ar wahân ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Mae'r safle yn groesawgar ac yn gynnes, ac mae'n hygyrch i'r rhan fwyaf o'r plant. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd ar y waliau, gan gynnwys rhywfaint o waith y plant, er enghraifft olion troed wedi'u paentio. Mae angen cynnal a chadw'r ardal chwarae awyr agored. Mae'r ardal yn cynnig rhai cyfleoedd chwarae i'r plant. Mae caban ag ystafell ddosbarth awyr agored ar gael, ond ni chaiff adnoddau eu cadw mewn ffordd drefnus na deniadol yn y caban. Nid oedd gorchudd ar yr hambwrdd dŵr awyr agored. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthym y bydd yr ardal hon yn cael ei thrawsnewid yn y flwyddyn newydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar adnoddau ac amrywiaeth ddigonol o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n briodol i'w hoedran er mwyn sbarduno eu diddordeb a'u dychymyg. Er enghraifft, cegin fwd dan do wedi'i gwneud o bren, unedau storio lefel isel er mwyn annog y plant i gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol. Mae'n ymddangos bod y rhain i gyd mewn cyflwr da ac maent yn cynnig rhai adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn parhau i ddatblygu. Rhoddodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth newidiadau ar waith yn syth ar ôl ein hymweliad i wella ansawdd y gofal plant a ddarperir ganddynt. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddatganiad o ddiben clir ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae amrywiaeth o bolisïau gwerth chweil ar waith ganddynt. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r polisïau wedi cael eu hadolygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y cofnodion gofynnol eu cadw, ond ni chaiff yr holl gofnodion eu cwblhau'n gyson, er enghraifft cofnodion am ddefnyddio'r toiled a newid cewynnau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn agored iawn ac yn gweithio'n gadarnhaol i wella'r gwasanaeth. Maent yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymgymryd â hunanwerthusiad priodol. Maent yn casglu barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn llunio adroddiad defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth am welliannau a wnaed a thargedau ar gyfer y dyfodol. Mae polisi cwynion clir ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ac mae proses ddigonol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cyflogi staff gofal sydd â chymwysterau addas bob amser. Gan fod hyn wedi cael effaith negyddol ar ansawdd y gofal weithiau, rydym wedi nodi hyn fel maes i'w wella a byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o grwpiau oedran penodol ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn proses recriwtio ddiogel ac yn cynnal gwiriadau addasrwydd mewn perthynas â phob aelod o'r staff. Caiff bron pob aelod o'r staff eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd ac yn briodol. Mae'r sesiynau goruchwylio a'r arfarniadau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol yn ogystal â llesiant y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cofnodion presenoldeb y plant a'r staff eu cadw'n gyson a chaiff nifer o deithiau i ysgolion ac oddi yno eu rheoli'n effeithiol. Maent yn bodloni'r cymarebau ac yn defnyddio'r staff mewn ffordd ddigonol er mwyn diwallu anghenion y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni. Mae'r staff yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am weithgareddau dyddiol y plant drwy ap ar-lein a thrwy adborth ar lafar. Dywedodd y rhieni eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Maent yn cael gwybodaeth am ddiwrnod eu plentyn ac yn teimlo bod y gwasanaeth yn eu cefnogi nhw a'u plant, *‘They’re absolutely brilliant here. I get plenty of information through the app and during handover. I’m really happy with everything.’* Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Datblygu system i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant, arsylwi arnynt a'u cofnodi'n effeithiol

A2 – Datblygu'r broses o gofnodi asesiadau risg dyddiol ymhellach

A3 – Datblygu'r ardaloedd dysgu sydd ar gael i'r plant ymhellach

A4 – Gwella arferion hylendid ymhellach

A5 – Datblygu a gwella'r ardal awyr agored ymhellach

A6 – Datblygu arferion bwydo diogel ymhellach yn yr ystafell i blant dan ddwy oed

A7 – Sicrhau y caiff cofnodion dyddiol eu cwblhau'n gyson

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
27	Nid yw'r staff bob amser yn meddu ar gymwysterau na phrofiad addas ar gyfer ystod oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir weithiau.	Newydd

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Dyddiad Cyhoeddi 24/01/2023